# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 22 Ebrill 2020

Amser y cyfarfod: 13.30

# 274 (v2)

Cynhelir y cyfarfod hwn drwy gynhadledd fideo. Ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, mae'r Llywydd wedi penderfynu:

- Y cworwm i unrhyw bleidlais fod yn ddilys fydd pedwar Aelod, yn unol â Rheol Sefydlog 34.10;
- Yn unol â Rheol Sefydlog 34.11, caiff pob grŵp gwleidyddol (neu grwpiad a ffurfir at ddibenion Rheol Sefydlog 11) enwebu un Aelod o'r grŵp neu'r grwpiad i gael yr un nifer o bleidleisiau ag sydd o aelodau'r grŵp neu yn achos grŵp gwleidyddol sydd â rôl weithredol, aelodau'r grŵp hwnnw yn ogystal ag unrhyw aelodau eraill o'r llywodraeth;
- Caiff gofynion Rheol Sefydlog 12.56 ynghylch cwestiynau llafar eu datgymhwyso, yn unol â Rheol Sefydlog 34.18.

**Mae'r Llywydd hefyd yn hysbysu, yn unol â Rheol Sefydlog 34.15, fod y cyhoedd wedi eu gwahardd rhag bod yn bresennol yn y Cyfarfod Llawn hwn, fel sy'n ofynnol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod yn parhau i gael ei ddarlledu'n fyw a bydd cofnod o'r trafodion yn cael ei gyhoeddi yn y ffordd arferol.**

## 1 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(5 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 2 Datganiad gan y Prif Weinidog: Coronafeirws (Covid-19)

(45 munud)

## 3 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Coronafeirws (Covid-19)

(45 munud)

## 4 Datganiad gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru: Ymateb Coronafeirws (COVID-19)

(45 munud)

## 5 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 - gohiriwyd tan 29 Ebrill 2020

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 29 Ebrill 2020